Arolygiad o wasanaethau troseddau ieuenctid yn

# Sir Gaerfyrddin

---

Arolygiaeth Prawf EF, Mawrth 2024

# Cynnwys

**Rhagair** ...3
**Sgoriau** ...4
**Argymhellion** ...5
**Cefndir** ...6
**Parth un: Cyflawni sefydliadol** ...7
1.1. Llywodraethu ac arweinyddiaeth ...7
1.2. Staff ...9
1.3. Partneriaethau a gwasanaethau ...10
1.4. Gwybodaeth a chyfleusterau ...11
**Parth dau: Datrysiadau yn y llys** ...14
2.1. Asesiadau ...14
2.2. Cynllunio ...15
2.3. Gweithredu a darparu ...16
2.4. Adolygu ...17
**Parth tri: Datrysiadau y tu allan i'r llys** ...18
3.1. Asesiadau ...18
3.2. Cynllunio ...19
3.3. Gweithredu a darparu ...20
3.4. Polisi a darpariaeth ar gyfer datrysiadau y tu allan i'r llys ...21
**4.1. Ailsefydlu** ...23
4.1. Polisi a darpariaeth ailsefydlu ...23
**Rhagor o wybodaeth** ...25

**Cydnabyddiaeth**

Cynhaliwyd yr arolygiad hwn dan arweiniad yr Arolygydd EF Rebecca Howard, gyda chymorth tîm o arolygwyr a chydweithwyr o'r arolygiaeth. Hoffem ddiolch i bawb a fu'n helpu i'w gynllunio ac a gymerodd ran yn yr arolygiad; heb eu help a'u cydweithrediad hwy, ni fyddai'r arolygiad wedi bod yn bosibl.

**Rôl Arolygydd Prawf EF**

Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi yw arolygydd annibynnol gwasanaethau prawf a throseddau ieuenctid yng Nghymru a Lloegr. Rydym yn adrodd ar effeithiolrwydd gwaith gwasanaethau prawf a throseddau ieuenctid gydag oedolion a phlant. Rydym yn arolygu'r gwasanaethau hyn ac yn cyhoeddi adroddiadau arolygu. Rydym yn tynnu sylw at arferion da a gwael, ac yn defnyddio ein data a'n gwybodaeth i annog gwasanaethau o ansawdd uchel. Rydym yn annibynnol ar y llywodraeth ac yn siarad yn annibynnol. Noder fod yr enwau yn yr enghreifftiau a roddir gydol yr adroddiad hwn wedi eu newid i barchu cyfrinachedd yr unigolion dan sylw.

Cewch ddefnyddio'r wybodaeth hon (ac eithrio logos) yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. I weld y drwydded hon, ewch i www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence neu e-bostiwch psi@nationalarchives.gsi.gov.uk.

**Cyhoeddwyd gan:**
Arolygiaeth Prawf EF
Llawr 1 Canolfan Llysoedd Sifil
1 Bridge Street West
Manceinion
M3 3FX

Dilynwch ni ar Twitter @hmiprobation

ISBN: 978-1-916621-09-1

**© Hawlfraint y Goron 2024**

# Rhagair

Mae'r arolygiad hwn yn rhan o'n rhaglen o arolygiadau o dimau cyfiawnder ieuenctid (TCI). Rydym wedi arolygu a sgorio Tîm Cyfiawnder Troseddol Sir Gaerfyrddin mewn tri maes cyffredinol: y trefniadau ar gyfer cyflawni sefydliadol y gwasanaeth, ansawdd y gwaith a wneir â phlant sy'n cael eu dedfrydu gan y llysoedd, ac ansawdd datrysiadau y tu allan i'r llys.

Ar y cyfan, cafodd TCI Sir Gaerfyrddin ei sgorio fel 'Rhagorol'. Buom hefyd yn arolygu safon y polisi a'r ddarpariaeth ailsefydlu, a gafodd ei sgorio ar wahân fel 'Rhagorol'.


Mae staff yn adnabod ac yn deall eu plant a'u teuluoedd yn dda, a gwelsom waith o safon uchel yn cael ei wneud. Mae lefel uchel o ofal ac ymroddiad i'r staff, plant, a dioddefwyr sy'n defnyddio'r gwasanaeth, sy'n ymestyn o uwch arweinyddion i staff gweithredol. Mae'r TCI wedi buddsoddi yn ei staff, gan gynnig pecyn hyfforddi cynhwysfawr a chyfleoedd rheolaidd i ddatblygu a chael dyrchafiad. Mae staff wedi'u symbylu, maent yn frwd, ac mae eu gwaith caled yn cael ei gydnabod a'i wobrwyo'n rheolaidd. Mae'r bwrdd rheoli wedi ymrwymo i'r TCI; mae wedi eiriol yn barhaus ar ran y gwasanaeth ac wedi ei helpu'n rhagweithiol i sicrhau'r canlyniadau gorau i blant, teuluoedd, a dioddefwyr. Rydym wedi nodi y dylai cadeirydd y bwrdd rheoli sicrhau eu bod yn bresennol ym mhob cyfarfod ac yn hybu datblygiad y bwrdd yn y dyfodol.

Mae'r TCI yn uchel iawn ei barch o fewn y bartneriaeth. Mae arweinyddiaeth gref, fywiog a chyson wedi galluogi'r gwasanaeth i weithredu ei weledigaeth a'i strategaeth yn effeithiol. Mae ymrwymiad i ystyried nodweddion gwarchodedig y plant hynny mae'r gwasanaeth yn gweithio â hwy. Er bod rhai elfennau o hyn yn parhau yn eu camau cynnar, maent yn dangos addewid. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer siaradwyr Cymraeg wedi hen sefydlu'i hun. Mae trefniadau partneriaeth aeddfed a chydlynus sy'n galluogi plant a theuluoedd i ddefnyddio ystod o wasanaethau. Mae'r rhain yn cynnwys lleferydd, iaith, a therapi cyfathrebu, cymorth addysg cofleidiol, ac ymyriad arbenigol i blant sy'n dangos ymddygiad rhywiol niweidiol. Mae darpariaeth y bartneriaeth hefyd wedi sicrhau staff sydd wedi'u secondio o'r heddlu a phrawf sydd wedi cael eu lleoli â'r TCI.

Mae'r ddarpariaeth gwneud iawn wedi gwneud argraff; mae'r gwasanaeth wedi gweithio â'r gymuned i lunio a darparu prosiectau ystyrlon sy'n cael effaith. Mae plant wedi gallu datblygu sgiliau yn ogystal ag ymwneud â chyfiawnder adferol. Gellid gwella'r ddarpariaeth hon ymhellach drwy gynnig cyfle i blant i ennill cymwysterau ffurfiol.

Mae'r gwasanaeth yn mynd ati'n rhagweithiol i ganfod cyfleoedd i ddysgu ac i wella'r gwasanaethau a ddarperir ganddo i'r sector ehangach. Mae hyn yn cynnwys partneriaid yn yr heddlu i fabwysiadu a lleoleiddio dull ar gyfer plant â phrofiad o fod mewn gofal i beidio cael eu trin fel troseddwyr ac i ddod i gysylltiad diangen â'r system cyfiawnder.

Mae fframwaith sicrhau ansawdd cadarn ar waith sydd wedi arwain at ymarfer a gwaith achos o safon uchel. Mae goruchwyliaeth y rheolwyr yn effeithiol a gwelir hynny mewn canlyniadau cryf o'r samplau o achosion arolygu ar ôl y llys, y tu allan i'r llys ac ailsefydlu.



**Martin Jones CBE**
Prif Arolygydd Prawf EF

## Sgoriau

| Tîm Cyfiawnder Ieuenctid Sir Gaerfyrddin | | Sgôr | 34/36 |
|---|---|---|---|
| **Sgôr gyffredinol** | | **Rhagorol** | |
| **1.** | **Cyflawni sefydliadol** | | |
| 1.1 | Llywodraethu ac arweinyddiaeth | **Da** | |
| 1.2 | Staff | **Rhagorol** | |
| 1.3 | Partneriaethau a gwasanaethau | **Rhagorol** | |
| 1.4 | Gwybodaeth a chyfleusterau | **Rhagorol** | |
| **2.** | **Datrysiadau yn y Llys** | | |
| 2.1 | Asesu | **Rhagorol** | |
| 2.2 | Cynllunio | **Rhagorol** | |
| 2.3 | Gweithredu a darparu | **Rhagorol** | |
| 2.4 | Adolygu | **Rhagorol** | |
| **3.** | **Datrysiadau y tu allan i'r Llys** | | |
| 3.1 | Asesu | **Da** | |
| 3.2 | Cynllunio | **Rhagorol** | |
| 3.3 | Gweithredu a darparu | **Rhagorol** | |
| 3.4 | Polisi a darpariaeth ar gyfer datrysiadau'r tu allan i'r llys | **Rhagorol** | |
| **4.** | **Ailsefydlu**[1] | | |
| 4.1 | Polisi a darpariaeth ailsefydlu | **Rhagorol** | |

[1] Nid yw'r sgôr ar gyfer ailsefydlu'n dylanwadu ar sgôr cyffredinol y TCI

## Argymhellion

O ganlyniad i ganfyddiadau ein harolygiad, rydym wedi gwneud pedwar argymhelliad y credwn y byddent, os cânt eu gweithredu, yn cael effaith bositif ar safon gwasanaethau troseddu ieuenctid yn Sir Gaerfyrddin. Byddai hyn yn gwella bywydau'r plant sydd mewn cysylltiad â gwasanaethau troseddu ieuenctid, ac yn gwarchod y cyhoedd.

**Dylai Tîm Cyfiawnder Ieuenctid Sir Gaerfyrddin:**

1. parhau i weithio â phartneriaid yn yr heddlu i leihau'r oedi rhwng y drosedd ac atgyfeiriad drwy'r TCI
2. parhau i weithio â phartneriaid yn yr heddlu i sefydlu Canlyniad 22,[2] ac ystyried cyflwyno mwy o hyblygrwydd yn y defnydd o ddatrysiadau y tu allan i'r llys sy'n sicrhau bod y defnydd ohonynt yn diwallu anghenion y plant yn y ffordd orau.

**Dylai bwrdd rheoli'r Tîm Cyfiawnder Ieuenctid:**

3. adolygu'r trefniadau cadeirio presennol i sicrhau bod y cadeirydd yn bresennol yn gyson yng nghyfarfodydd y bwrdd, ac yn arwain y gwaith o oruchwylio gweithgarwch y bwrdd, presenoldeb yr aelodau, a datblygiad y bwrdd yn y dyfodol
4. sicrhau bod ganddo fwy o gysylltiad â'r TCI drwy gysylltiad ac ymgysylltiad mwy uniongyrchol â'r gwasanaeth ehangach.

[2] Lle mae'r heddlu'n gohirio erlyn neu bod gweithgarwch dargyfeiriol neu addysgol wedi'i wneud â'r plentyn.

# Cefndir

Cynhaliwyd gwaith maes yn Nhîm Cyfiawnder Ieuenctid (TCI) Sir Gaerfyrddin yn ystod cyfnod o wythnos, a oedd yn dechrau ar 06 Tachwedd 2023. Buom yn arolygu achosion lle cafodd y ddedfryd neu drwydded, datrysiad y tu allan i'r llys neu ddarpariaeth ailsefydlu eu gwneud rhwng 07 Tachwedd 2022 a 01 Medi 2023.

Mae Sir Gaerfyrddin yn sir yn ne orllewin Cymru. Mae'n ffinio â phum awdurdod arall: Ceredigion, Powys, Castell-nedd Port Talbot, Abertawe a Sir Benfro. Mae Sir Gaerfyrddin yn ardal ddaearyddol fawr ac amrywiol; y tair prif dref yw Caerfyrddin, Llanelli, a Rhydaman. Yn Rhagfyr 2022, cofnododd y Swyddfa Ystadegau Gwladol fod poblogaeth Sir Gaerfyrddin yn 188,191; roedd naw y cant o'r ffigur hwn, 17,454, yn blant 10–17 oed. Mae yn y sir y nifer ail uchaf o siaradwyr Cymraeg o'r holl awdurdodau lleol yng Nghymru, ac mae'n parhau i fod y pedwerydd uchaf o ran y ganran o'r boblogaeth sy'n gallu siarad Cymraeg – fe'i cofnodwyd fel 40 y cant yng Nghyfrifiad 2021. Cofnododd y Cyfrifiad fod 94 y cant o boblogaeth Sir Gaerfyrddin o dreftadaeth Gymreig, Seisnig, Albanaidd, Gogledd Iwerddon neu Brydeinig gwyn. Ar adeg yr arolygiad, roedd plant o dreftadaeth ethnig du, Asiaidd, ac ethnig leiafrifol yn cyfrif am bump y cant o sampl yr achosion.

Mae'r TCI wedi'i leoli o fewn gwasanaeth cymorth ieuenctid (GCI) y cyngor sir ac mae'n cael ei oruchwylio gan y prif reolwr. Sefydlwyd GCI Sir Gaerfyrddin yn 2016, gan ddwyn gwaith ieuenctid a'r ddarpariaeth cyfiawnder ieuenctid statudol ynghyd o dan un strwythur rheoli. Mae'r gwasanaeth yn rhan o isadran strategaeth a chymorth i ddysgwyr adran addysg a phlant y cyngor. Mae'r TCI yn bodoli ochr yn ochr â thri thîm arall: cymorth cyffredinol, cymorth ieuenctid wedi'i dargedu (16-25 oed) a chymorth ieuenctid wedi'i dargedu (10-18 oed). Mae strwythur uwch reolwyr TCI yn cynnwys prif reolwr a rheolwr tîm cyfiawnder ieuenctid, a dau uwch ymarferydd. Mae'r tîm ehangach yn cynnwys ymarferwyr, gweithwyr atal, cymorth busnes, gweithiwr addysg, swyddog dioddefwyr, a swyddog gwybodaeth. Drwy drefniadau gwasanaeth a phartneriaeth, mae gan y TCI swyddog heddlu a phrawf ar secondiad, ymarferwyr camddefnyddio sylweddau arbenigol, a therapydd lleferydd ac iaith.

Mae'r TCI yn gweithio â phlant 15-17 oed yn bennaf. Ar adeg yr arolygiad hwn, roedd 22 o blant yn destun gorchmynion ar ôl y llys, gan gynnwys un plentyn ar drwydded. Roedd 101 o blant yn destun datrysiad y tu allan i'r llys, a oedd yn cynnwys pump o blant a oedd yn gweithio â TCI tra'r oeddent ar rybuddiad amodol ieuenctid. Dangosodd dadansoddiad a gynhaliwyd gan y TCI yn 2023 mai troseddau cyffuriau a thrais oedd y troseddau mwyaf niferus o fewn eu carfan. Cafodd hyn ei adlewyrchu yn ein sampl o achosion, gyda throseddau trais yn cyfrif am 71 y cant o'r datrysiadau y tu allan i'r llys a 57 y cant o achosion ar ôl y llys. O fewn carfan TCI dim ond pedwar y cant o blant a oedd yn cael gofal gan yr awdurdod lleol. Roedd plant a oedd yn destun cynlluniau gofal a chymorth yn cyfrif am 11 y cant o'r garfan, ac roedd y rhai o dan weithdrefnau amddiffyn plant yn cyfrif am bedwar y cant.

Mae gwasanaeth Heddlu Dyfed-Powys yn cynnwys Sir Gaerfyrddin. Mae gan y gwasanaeth gysylltiadau a pherthynas dda â Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu (OPPC), sy'n ariannu'r prosiect cyflawnder adferol rhanbarthol. Mae'r OPPC wedi enwebu'r TCI rhanbarthol ddwywaith am wobrau blynyddol yr heddlu.

# Parth un: Cyflawni sefydliadol

I arolygu cyflawni sefydliadol, buom yn adolygu tystiolaeth ysgrifenedig a gyflwynwyd ymlaen llaw gan y TCI a chynhaliwyd 14 o gyfarfodydd, a oedd yn cynnwys staff, gwirfoddolwyr, rheolwyr, aelodau'r bwrdd, a staff partneriaeth a'u rheolwyr.

Roedd y prif ganfyddiadau o ran cyflawni sefydliadol fel a ganlyn.

## 1.1. Llywodraethu ac arweinyddiaeth

| | |
|---|---|
| Mae llywodraethau ac arweinyddiaeth y YOT yn helpu ac yn hybu gwasanaeth personol ac ymatebol o safon uchel i bob plentyn. | Da |

**Cryfderau:**

- Mae gan y bwrdd, y bartneriaeth a'r TCI barch mawr tuag at y prif reolwr. Mae eu ffordd ragweithiol ac arloesol o weithio wedi rhoi gweledigaeth a strategaeth y gwasanaeth ar waith yn effeithiol. Mae arweinyddiaeth o safon uchel gan y prif reolwr yn cael ei helpu gan dîm o reolwyr eithriadol.
- Mae'r tîm rheoli'n gydlynus a chefnogol. Maent yn cyfathrebu'n effeithiol ac mae'r llinellau atebolrwydd yn hysbys. Mae lefel uchel o ofal i staff ac i'r sawl sy'n defnyddio'r TCI.
- Cafodd y weledigaeth a'r strategaeth eu datblygu ar y cyd â phartneriaid a'r TCI. Mae blaenoriaethau a dyheadau ar gyfer y gwasanaeth yn hysbys, yn strategol ac yn weithredol.
- Mae gan y bwrdd a'r TCI gysylltiadau strategol â byrddau eraill a'r sector cyfiawnder ieuenctid, sy'n helpu i sicrhau bod eu gwaith yn berthnasol, yn gyson ac o safon uchel.
- Mae aelodau'r bwrdd yn ymroi ac yn eiriol ar ran y TCI. Mae'r bwrdd yn cynnwys partneriaid ar lefel briodol o uchel sy'n deall anghenion y gwasanaeth a'u rolau a'u cyfrifoldebau fel aelodau.
- Mae aelodau newydd o'r bwrdd yn cael sesiynau cynefino trylwyr i'w paratoi ar gyfer y rôl.
- Mae partneriaeth strategol gref sy'n cefnogi ac yn cyfrannu at gyflawni gwaith y TCI. Mae'r dull cydweithredol hwn yn galluogi plant a theuluoedd i fanteisio ar gymorth cofleidiol.
- Mae trefniadau comisiynu'n galluogi darpariaeth fewnol ar gyfer gwaith camddefnyddio sylweddau a therapi lleferydd ac iaith. Mae'r gwasanaeth yn elwa ar secondiadau o'r heddlu a'r gwasanaeth prawf.
- Mae'r gwasanaeth ehangach yn deall rôl y bwrdd ac mae ganddo hyder yn ei allu i lywodraethu a chynnal y gwasanaeth. Mae diweddariadau ar weithgarwch y bwrdd a'r gwasanaeth yn cael eu rhannu â staff.
- Mae'r bwrdd yn cadw golwg ar ac yn deall y risgiau i'r gwasanaeth. Mae cynlluniau rhagweithiol ar waith i liniaru'r rhain.

**Meysydd i'w gwella:**

- Mae cynrychiolaeth gref gan y rhan fwyaf o aelodau'r bwrdd, ond mae presenoldeb wedi bod yn anghyson yn achos sawl partner allweddol. Mae hyn yn cael sylw ond mae angen mwy o ddibynadwyedd a chysondeb.
- Mae angen lefelau presenoldeb gwell yn y bwrdd gan y cadeirydd. Bydd presenoldeb gwell yn sicrhau bod rolau a chyfrifoldebau'r cadeirydd i oruchwylio gweithgarwch y bwrdd yn cael eu cyflawni'n gyson.
- Mae data a dadansoddiadau cynhwysfawr yn cael eu cynhyrchu gan y TCI ac maent yn cael eu rhannu ag aelodau'r bwrdd. Fodd bynnag, byddai cyfarfodydd y bwrdd yn elwa ar gyflwyno data a gedwir gan wasanaethau partner yn rheolaidd er mwyn cael cyfle i'w trafod.
- Mae cysylltedd cryf o'r TCI i'r bwrdd. Fodd bynnag, gellid cael cysylltedd cyfatebol gan y bwrdd i'r TCI. Byddai cysylltiad mwy uniongyrchol gan aelodau'r bwrdd â'r gwasanaeth yn gwella'r cysylltedd eto.

## 1.2. Staff

| | |
|---|---|
| Mae staff yn y YOT wedi'u grymuso i ddarparu gwasanaeth o safon uchel, sy'n bersonol ac ymatebol i bob plentyn. | Rhagorol |

**Cryfderau:**

- Mae staff yn frwd ac wedi ymrwymo i sicrhau'r canlyniadau gorau i blant, teuluoedd a dioddefwyr. Maent yn adnabod ac yn deall eu plant a'u teuluoedd yn dda. Mae lefelau uchel o gymhelliad, gofal ac ymroddiad yn ymestyn o uwch reolwyr i staff gweithredol.
- Mae'r gweithlu'n sefydlog ac wedi'i staffio'n ddigonol i ddiwallu anghenion y gwasanaeth. Mae'r llwythau gwaith yn drwm ond o fewn gallu'r staff i'w cyflawni. Mae rheolwyr yn monitro capasiti'n rhagweithiol. Mae trefniadau wrth gefn effeithiol sy'n galluogi'r gwasanaeth i ymateb i newidiadau ac i sicrhau ei fod yn gynnig ymarfer o safon yn gyson.
- Mae dull gofalus o ddyrannu achosion sy'n ystyried gwybodaeth a phrofiad yr ymarferwyr. Mae plant yn cael eu paru ag ymarferwyr sydd â'r sgiliau priodol i ddiwallu eu hanghenion.
- Mae proses gynefino gynhwysfawr a chefnogol ar gyfer staff a gwirfoddolwyr sy'n eu paratoi'n ddigonol i ymgymryd â'u rolau.
- Mae'r oruchwyliaeth i reolwyr a staff yn fynych, yn gefnogol, ac yn hybu ymarfer o safon uchel. Dywed staff fod eu diogelwch corfforol a'u llesiant emosiynol yn flaenoriaethau ac yr ymatebir iddynt yn effeithiol.
- Mae'r gwasanaeth wedi darparu sawl cyfle i gael dyrchafiad ac i ddatblygu i'r staff. Mae'r rhain yn cynnwys secondiadau i wasanaethau eraill a chyfleoedd i staff i gamu ymlaen i swyddi rheoli a rolau uwch swyddogion.
- Mae'r gwasanaeth yn hyrwyddo diwylliant o ddysgu a datblygiad; mae staff yn cael cyfleoedd i gynnal ac ennill cymwysterau fel y radd sylfaen mewn cyfiawnder ieuenctid.
- Mae strategaeth hyfforddi gynhwysfawr sydd wedi ymateb i dueddiadau a newidiadau a ganfuwyd yn anghenion y gwasanaeth. Mae hyn wedi helpu staff i wella eu gwybodaeth a'u sgiliau.
- Mae staff a gwirfoddolwyr yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi gan y gwasanaeth a'r bartneriaeth ehangach. Mae eu gwaith caled a'u cyflawniadau'n cael eu gwobrwyo a'u cydnabod gan reolwyr a thrwy brosesau gwobrwyo ffurfiol.
- Mae cynnal a gwella ymgysylltiad â staff yn flaenoriaeth. Mae staff yn teimlo cysylltiad agos â'r gwasanaeth, ac mae eu barn wedi'i defnyddio i ffurfio a gwella'r gwasanaeth a ddarperir.

**Meysydd i'w gwella:**

- Hoffai rhai gwirfoddolwyr gael gwell mynediad at hyfforddiant a mwy o gyfleoedd i gysylltu'n uniongyrchol â'r gwasanaeth.

## 1.3. Partneriaethau a gwasanaethau ☆

| Mae ystod gynhwysfawr o wasanaethau o safon uchel ar gael, sy'n galluogi darpariaeth bersonol ac ymatebol i bob plentyn. | Rhagorol |
| --- | --- |

**Cryfderau:**

- Mae dadansoddiadau'n cael eu cynnal yn rheolaidd, gan roi gwybodaeth werthfawr i'r TCI am anghenion ymataliad a phroffil a demograffeg plant a theuluoedd sy'n defnyddio'r gwasanaeth. Mae hyn yn cynnwys craffu ar nodweddion gwarchodedig i chwilio am anghymesuredd.
- Mae dull partneriaeth cyfannol i ddiwallu anghenion addysg, hyfforddiant, a chyflogaeth (ETE) plant. Mae llwybrau ar gyfer mynediad ac uwchgyfeirio os nad yw'r ddarpariaeth ETE yn ddigon dealladwy neu os nad ydynt yn cael eu defnyddio'n effeithiol.
- Mae gan blant fynediad at ystod eang o brosiectau gwneud iawn arloesol, sy'n gyfle iddynt i ddatblygu eu sgiliau. Mae gan y TCI gysylltiadau cryf â'r ardal leol, sydd wedi ei alluogi i redeg prosiectau ystyrlon ac adferol sydd o fudd i'r gymuned.
- Mae darparu mynediad at gymorth llesiant emosiynol ac iechyd meddwl yn flaenoriaeth. Mae'r ddarpariaeth bresennol yn un gref, ac mae'r bartneriaeth yn gweithio ar y cyd i wella gwasanaethau ymhellach.
- Mae gan blant fynediad amserol at asesiadau a chymorth camddefnyddio sylweddau. Mae trefniadau sy'n galluogi darparu ymyriadau arbenigol yn fewnol.
- Yn ddiweddar, sicrhaodd y TCI ddarpariaeth lleferydd, iaith, a chyfathrebu mewnol. Mae plant yn awr yn gallu cael asesiadau ac ymyriadau.
- Mae prosesau i hybu diogelwch y plentyn a phobl eraill yn drylwyr a chadarn. Mae ymrwymiad amlasiantaethol, gyda rheoli risg a diogelwch yn cael eu gweld fel cyfrifoldeb y bartneriaeth.
- Mae plant sy'n arddangos ymddygiad rhywiol niweidiol yn cael mynediad at ddarpariaeth ac ymyriadau arbenigol cofleidiol.
- Mae proses bontio gref hefyd sy'n helpu plant sy'n symud ymlaen at y gwasanaeth prawf.
- O fewn y sampl o achosion, gwelsom gydlyniad a threfniadau o safon uchel yn y bartneriaeth a oedd yn diwallu anghenion ymataliad y plant ac yn hybu diogelwch.
- Mae gan y TCI berthnasoedd effeithiol â'r llysoedd, gan ddarparu diweddariadau a hyfforddiant rheolaidd i ynadon. Mae ynadon yn cael eu gwahodd ac maent wedi bod yn bresennol yn y ganolfan i weld sut y gwneir datrysiadau y tu allan i'r llys.

**Meysydd i'w gwella:**

- Gallai prosiectau gwneud iawn gael eu datblygu ymhellach drwy gynnig cyfleoedd i blant i gael cymwysterau ffurfiol.
- Mae dewis da i ddioddefwyr sy'n defnyddio'r gwasanaeth, ond mae angen rhagor o waith i ddeall cyfraddau'r dioddefwyr sy'n manteisio ar y gwasanaeth a sut y gellid eu gwella.

## 1.4. Gwybodaeth a chyfleusterau

| | |
|---|---|
| Mae gwybodaeth amserol a pherthnasol ar gael ac mae cyfleusterau priodol i gynnal dull personol ac ymatebol o safon uchel i bob plentyn. | Rhagorol |

**Cryfderau:**

- Mae polisïau'r TCI yn cael eu hadolygu'n rheolaidd ac maent yn ymdrin â phob un o'r meysydd ymarfer allweddol. Mae'r rhan fwyaf o bolisïau'n gynhwysfawr ac maent yn cynnwys canllawiau digonol ar brotocolau ac ymarfer.
- Mae polisïau a chanllawiau wedi'u lleoli'n ganolog ac maent wedi'u cyfleu'n effeithiol i staff. Mae staff yn deall ac maent yn hyderus y gallant gael y gwasanaethau cywir gan bartneriaid. Mae hyn wedi helpu i gyflawni gwaith o safon uchel yn gyson.
- Mae polisïau'n cynnwys manylion am sut mae'r TCI yn bwriadu ystyried nodweddion gwarchodedig y sawl maent yn gweithio â hwy. Mae canllawiau ymarferol ar sut mae'n cydnabod ac yn ymateb i anghenion amrywiaeth ar gael i gynorthwyo staff.
- Mae'r adeiladau lle mae staff yn gweithio â phlant yn hygyrch a diogel. Mae Sir Gaerfyrddin yn ardal ddaearyddol fawr a defnyddir cyfleusterau cymunedol, yn ogystal ag ymweliadau â chartrefi i sicrhau nad yw plant yn gorfod teithio'n rhy bell.
- Mae trefniadau gweithio effeithiol sy'n galluogi staff i weithio'n hyblyg o swyddfeydd a lleoliadau eraill, yn ogystal â chwrdd wyneb yn wyneb yn rheolaidd.
- Mae gan y gwasanaeth ddefnydd o becynnau TGCh effeithiol sy'n ei alluogi i gyflawni ei rolau. Mae systemau TGCh yn hwyluso gweithio ystwyth fel y gall staff weithio o bell o swyddfeydd eraill neu o leoliadau cymunedol.
- Mae trefniadau rhannu gwybodaeth a phrotocolau â phartneriaid yn caniatáu cyfnewid gwybodaeth briodol yn brydlon.
- Mae'r fframwaith sicrhau ansawdd yn un cryf ac effeithiol. Mae gweithgarwch archwilio'n cael ei gynnal yn aml, gan edrych ar feysydd thematig yn ogystal ag arferion gweithio. Defnyddiwyd dysgu'n effeithiol i wella ansawdd y ddarpariaeth.
- Mae'r TCI wedi ymrwymo i ddysgu a gwella ymarfer. Mae wedi manteisio ar ddysgu o'r sector, ymchwil, a chanlyniadau arolygiadau i lywio'r gwasanaeth a ddarperir.
- Mae'r TCI yn gwerthuso ei wasanaeth yn rheolaidd i edrych ar ei effaith; mae hyn yn cynnwys adolygiad rhagweithiol o waith lle na chyflawnwyd y canlyniadau gorau.

## Cynnwys plant a'u rhieni neu ofalwyr

Mae'r TCI a'r bartneriaeth ehangach yn dilyn ethos plant yn gyntaf, lle mae anghenion y plentyn a'r teulu'n ganolog i'w hymarfer a'r ddarpariaeth. Mae clywed gan blant a theuluoedd am eu gwaith â'r gwasanaeth a deall am eu profiad bywyd yn flaenoriaeth. Mae adborth yn cael ei rannu'n rheolaidd â'r bwrdd, ond mae'r TCI yn parhau i gryfhau'r broses hon, drwy edrych ar y dulliau a ddefnyddir ganddo i ymgysylltu â phlant. Mae trefniadau sy'n galluogi plant a theuluoedd i roi adborth rheolaidd ar eu profiadau o'r gwasanaeth, ei effaith, ac a oes angen gwella'r ddarpariaeth. Mae'r gwasanaeth yn cydnabod pwysigrwydd cydweithrediad a chynnwys plant a theuluoedd. Er enghraifft, mae wedi bod yn gysylltiedig â datblygu ymyriadau a gwasanaethau, gan gynnwys y rhaglen Dyma-Fi ar gyfer plant.

Cysylltodd y TCI, ar ein rhan, â phlant a oedd wedi gweithio â'r gwasanaeth i ofyn am eu cydsyniad i'w cyfweld neu gynnal arolwg testun. Buom yn siarad ag wyth o blant, dau riant, ac un gofalwr. Cawsom, hefyd 12 ymateb i'n harolwg testun.

Roedd mwyafrif llethol yr ymatebion a gawsom am y gwasanaeth yn bositif. Dywedodd un o'r cyfranogwyr:

> *"Mae hi [yr ymarferydd] yn rhoi anghenion a dymuniadau'r plant yn gyntaf bob amser ond gan barhau'n broffesiynol. Mae hi wedi rhoi help diddiwedd imi ac mae wedi gwneud mwy na'r hyn a ddisgwylid ganddi … rwy'n teimlo bod y cymorth [gan yr ymarferydd] wedi bod yn fuddiol iawn ac mae fy mab yn gallu bod yn agored iawn â hi; hi yw'r unig weithiwr proffesiynol sy'n ymwneud â fy mab ac mae hi'n ymgysylltu'n dda ag ef.'*

Yn yr arolwg testun, gofynnwyd i gyfranogwyr sgorio'r TCI ar raddfa o 1 i 10, gydag 1 yn wael a 10 yn 'wych'. Rhoddodd bob un sgôr o 7 neu uwch i'r gwasanaeth, a 9 a 10 oedd y sgoriau a roddwyd amlaf.

Roedd yr holl gyfranogwyr y buom yn siarad â hwy yn teimlo bod gan yr ymarferydd y sgiliau cywir ar gyfer y rôl. Dywedodd un rhiant:

> *"Roedd y drosedd yn un ddifrifol ac o natur sensitif, ac roedd y rheolwr achos yn eithriadol o sensitif, yn garedig bob amser, yn cymryd amser, ac yn helpu i gefnogi ei leoliad. Hefyd roedd yn barod i helpu pa bryd bynnag oedd angen, roedd wrth law bob amser."*

Gofynnwyd i'r cyfranogwyr y buom yn siarad â hwy, 'pa mor dda yw'r gwasanaethau a gawsoch gan y TCI?'. Disgrifiodd bob un ohonynt y gwasanaeth fel un 'da iawn' neu 'eithaf da'. Meddai un rhiant:

> *"Mae'r ymarferydd a'r plentyn wedi meithrin perthynas dda, mae fy mab newydd ddechrau addysg adferol...ac roedd eu rheolwr achos yn allweddol i hyn...Mae hi wedi bod yn help a chefnogaeth dda. Mae sgiliau cyfathrebu fy mab wedi gwella'n fawr o ganlyniad."*

Roedd plant wedi gwerthfawrogi sut yr oedd eu hymarferwyr wedi ymgysylltu a gweithio â hwy. Pan ofynnwyd beth oeddent yn ei hoffi fwyaf am y TCI, cafwyd y sylwadau canlynol gan ddau o'r plant:

> *"Cysur a natur agored y gweithiwr, roeddwn yn teimlo'n gartrefol bob amser, allwn i ddim gofyn am ddim byd gwell."*

> *"Roedd hi [yr ymarferydd] yn amyneddgar, yn agored iawn, ac roedd yn barod i fy helpu. Roeddwn yn edrych ymlaen at fy apwyntiadau. Cawsom foreau coffi, roedd ganddi agwedd bositif, ac roedd yn gwneud imi deimlo'n gartrefol."*

## Amrywiaeth

- Mae strategaeth bendant sy'n disgrifio sut mae'r gwasanaeth yn bwriadu ystyried nodweddion gwarchodedig y rhai maent yn gweithio â hwy. Mae elfennau o hyn yn y camau cynnar ond maent yn dangos addewid; mae meysydd eraill, fel mynediad cyfartal i siaradwyr Cymraeg, wedi hen sefydlu'u hunain. Mae'r bartneriaeth ehangach yn deall y strategaeth ac mae'r TCI yn cydnabod bod angen parhau â'r gwaith y sicrhau effaith systematig.
- Mae'r TCI wedi cydnabod yr angen i roi sylw i ac i atal gorgynrychiolaeth o fewn y garfan. Mae camau rhagweithiol yn cael eu cymryd i helpu plant sydd â phrofiad o fod mewn gofal ac i geisio atal eu cysylltiad â'r system cyfiawnder troseddol.
- O ran ethnigrwydd, mae'r gweithlu a'r gwirfoddolwyr yn gynrychioliadol o'r boblogaeth leol a'r garfan gyfredol o blant.
- Mae'r gwasanaeth wedi ymrwymo i recriwtio rhagweithiol yn y dyfodol i sicrhau bod y tîm yn gynrychioliadol o'r rhai sy'n defnyddio'r gwasanaeth. Fodd bynnag, byddai mwy o ymarferwyr gwrywaidd yn arwain at fwy o gyfleoedd i blant i weithio â staff o'r un rhywedd. Roedd gwirfoddolwyr yn teimlo y dylid hefyd ystyried recriwtio gwirfoddolwyr iau.
- Mae dadansoddiadau'n cael eu cwblhau'n rheolaidd â'r TCI gyda gwybodaeth werthfawr, gan gynnwys craffu ar nodweddion gwarchodedig i edrych ar gynrychiolaeth anghyfrannol bosibl. Mae dadansoddi tueddiadau a phatrymau wedi galluogi'r TCI i wella'r ddarpariaeth ac i gynnig ymyriadau wedi'u teilwra. Mae hyn yn cynnwys datblygu rhaglen ar gyfer merched gyda chyfraniadau gan blant at y datblygiad hwn.
- Mae darpariaeth lleferydd, iaith, a chyfathrebu ar gael yn Gymraeg a Saesneg. Bydd plant yn awr yn gallu cael asesiadau ac ymyriadau yn y ddwy iaith.
- Mae polisïau sy'n nodi ymrwymiad y TCI i ystyried nodweddion gwarchodedig y rhai mae'n gweithio â hwy. Mae canllaw ymarferol i helpu staff a'r gwasanaeth ar sut i adnabod ac ymateb i anghenion amrywiaeth.
- Yn yr achos ailsefydlu y buom yn ei adolygu roedd anghenion amrywiaeth unigol y plentyn wedi cael eu hystyried. Roedd camau ac addasiadau priodol wedi'u gwneud i hybu mynediad cyfartal at y ddarpariaeth ac i ddiwallu anghenion y plentyn. Er enghraifft, roedd y TCI wedi sicrhau bod yr un cyfieithydd yn cael eu defnyddio drwy gydol y broses.
- Yn ein sampl o achosion ar ôl y llys, roedd y camau i ddiwallu anghenion amrywiaeth plant yn dda iawn, ac yn ddigonol mewn achosion ar gyfer asesu, cynllunio, darparu, a'r holl achosion a oedd angen eu hadolygu. Yn y sampl o achosion datrysiadau y tu allan i'r llys, roedd diwallu anghenion amrywiaeth plant yn gryfder ac yn ddigonol yn y rhan fwyaf o achosion ar gyfer asesu, cynllunio, a darparu.

## Parth dau: Datrysiadau yn y llys

Edrychwyd yn fanwl ar saith dedfryd gymunedol a reolwyd gan y TCI.

### 2.1. Asesiadau

| | |
|---|---|
| Mae asesiadau wedi'u seilio ar wybodaeth, yn ddadansoddol, personol, ac yn cynnwys y plentyn a'u rhieni neu ofalwyr. | Rhagorol |

Mae ein sgôr[3] ar gyfer asesiadau wedi'i seilio ar y pedwar cwestiwn allweddol canlynol:

| | **% 'Ydy'** |
|---|---|
| A yw asesiadau'n dadansoddi'n ddigonol sut i helpu ymataliad y plentyn? | 100% |
| A yw asesiadau'n dadansoddi'n ddigonol sut i gadw'r plentyn yn ddiogel? | **86%** |
| A yw asesiadau'n dadansoddi'n ddigonol sut i gadw pobl eraill yn ddiogel? | **86%** |

Roedd asesiadau o ymataliad yn dda iawn ac roedd eu safon yn uchel yn gyson. Mae ymarferwyr wedi mynd ati'n rhagweithiol i ganfod a defnyddio gwybodaeth a gedwir gan wasanaethau eraill i wella eu dadansoddiadau a'u hasesiadau. Defnyddiwyd dulliau eraill fel holiaduron hunanasesu a sgrinio iaith a lleferydd i gael rhagor o wybodaeth. Roedd dull cydweithredol wrth asesu, lle'r oedd barn plant, teuluoedd a gofalwyr yn ganolog. Roedd hyn wedi helpu ymarferwyr i ystyried a deall aeddfedrwydd, hunaniaeth ac anghenion amrywiaeth y plentyn. Roedd asesiadau'n gytbwys, yn ystyried ysbardunau a oedd yn achosi ymddygiadau, ac yn ystyried effaith profiadau cynnar. Roedd dadansoddiadau'n drylwyr a chynhwysfawr, gan ystyried meysydd pryder a chryfderau.

Roedd ymarferwyr yn dangos hyfedredd wrth ganfod canlyniadau andwyol posibl a risgiau yr oedd y plentyn yn ei achosi i eraill. Roedd dadansoddiadau o risg yn fanwl ac yn ystyried tebygrwydd, natur a chyd-destun lle gallai'r rhain ddigwydd. Roedd ymarferwyr wedi craffu ar reolaethau ac ymyriadau'n effeithiol i liniaru risgiau. Roedd dealltwriaeth dda o drawma a sut y gall niwed emosiynol effeithio ac amharu ar y plentyn. Mewn dadansoddiadau o niwed posibl i eraill, roedd ymarferwyr wedi ystyried ymddygiad a throseddau blaenorol yn briodol i gael asesiad cyfannol. Mewn asesiadau o niwed posibl a achosir i a gan y plentyn, canfu arolygwyr fod dosbarthiadau risg yn rhesymol ym mhob achos. Roedd ymarferwyr wedi cyflwyno tystiolaeth fanwl a rhesymau am eu safbwyntiau.

Ym mhob achos, roedd ansawdd goruchwyliaeth rheoli ac asesiadau effeithiol wedi'u sicrhau gan reolwyr. Lle'r oedd angen, roedd canllawiau priodol ar gael i gryfhau asesiadau.

[3] Mae'r sgôr ar gyfer y safon yn seiliedig ar y sgôr isaf ar bob un o'r cwestiynau allweddol, sydd wedi'u gosod mewn band sgoriau, sydd wedi'i ddangos mewn print trwm yn y tabl. Ceir esboniad mwy manwl yn yr atodiad data.

## 2.2. Cynllunio

| | |
|---|---|
| Mae cynllunio'n seiliedig ar wybodaeth, yn ddadansoddol a phersonol, ac mae'n cynnwys y plentyn a'u rhieni neu ofalwyr. | Rhagorol |

Mae ein sgôr[4] ar gyfer cynllunio'n seiliedig ar y cwestiynau allweddol canlynol:

| | % 'Ydy' |
|---|---|
| A yw cynllunio'n rhoi digon o bwyslais ar ymataliad y plentyn? | 100% |
| A yw cynllunio'n rhoi digon o bwyslais ar gadw'r plentyn yn ddiogel? | **86%** |
| A yw cynllunio'n rhoi digon o bwyslais ar gadw pobl eraill yn ddiogel? | **86%** |

Cwblhawyd gwaith cynllunio drwy ddefnyddio fformat hygyrch, a oedd yn ystyried ac yn cofnodi cryfderau a dyheadau'r plentyn. Roedd dull cydweithredol o weithio â phlant, teuluoedd a gofalwyr sy'n gysylltiedig â'r gweithgarwch cynllunio. Roedd ymarferwyr wedi ystyried anghenion unigol y plentyn a'r ffordd orau o weithio ac ymgysylltu â hwy. Roedd hyn yn cynnwys sut i gynnal sesiynau fel eu bod yn cyd-fynd ag anghenion dysgu a chyfathrebu'r plentyn. Roedd y cynllunio'n gymesur, gyda thargedau ac amcanion wedi'u nodi'n glir ac roeddent yn rhai y gellid eu cyflawni. Roedd cynllunio'n cydnabod yr angen i gryfhau ffactorau amddiffynnol ac ymataliad, yn ogystal â rhoi pwyslais ar feysydd pryder. Er enghraifft, lle'r oedd angen gwneud iawn, roedd y gwaith cynllunio wedi ystyried diddordebau a sgiliau presennol y plentyn, ac roeddent yn cael eu paru â phrosiectau priodol.

Os oedd gwasanaethau eraill yn ymwneud â'r plentyn a'r teulu, roedd dull amlasiantaethol cryf o gynllunio. Roedd y rhwydwaith proffesiynol yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau, ac roeddent wedi ymrwymo i weithio â'r TCI i hybu diogelwch y plentyn ac eraill. Roedd cynlluniau â gwasanaethau eraill yn cael eu halinio a'u cyfleu'n effeithiol i sicrhau nad oedd gwaith yn cael ei ddyblygu.

Roedd gwaith cynllunio wedi canfod ymyriadau ac atgyfeiriadau priodol i leihau risgiau a phryderon. Er enghraifft, lle'r oedd plant yn profi anawsterau â chyffuriau a/neu alcohol, roedd cynlluniau gofal camddefnyddio sylweddau wedi'u datblygu ar gyfer y plentyn i gael ymyriad arbennig. Roedd rheolaethau angenrheidiol i liniaru risgiau i eraill yn cael eu hystyried yn effeithiol a'u cynnwys mewn gwaith cynllunio. Er enghraifft, os oedd pryderon yn ymwneud ag ymddygiad gwrthgymdeithasol, roedd mecanweithiau ychwanegol yn cael eu rhoi ar waith er mwyn monitro ond hefyd i helpu'r plentyn. Yn y rhan fwyaf o achosion, roedd manylder cynlluniau i warchod dioddefwyr gwirioneddol a phosibl ar waith ac yn ddigonol.

Roedd trefniadau wrth gefn yn gynhwysfawr a thrylwyr, gan egluro'n glir y camau priodol pe bai risgiau i neu gan y plentyn yn newid. Canfu arolygwyr gynllunio wrth gefn a oedd yn bwrpasol ar gyfer anghenion y plentyn ac wedi'u teilwra ar gyfer y risgiau a ganfuwyd, a oedd yn sicrhau bod ymatebion yn ystyrlon a pherthnasol.

[4] Mae'r sgôr ar gyfer y safon yn seiliedig ar y sgôr isaf ar bob un o'r cwestiynau allweddol, sydd wedi'u gosod mewn band sgoriau, sydd wedi'i ddangos mewn print trwm yn y tabl. Ceir esboniad mwy manwl yn yr atodiad data.

## 2.3. Gweithredu a darparu

| | |
|---|---|
| Mae gwasanaethau cydlynol, personol ac o ansawdd uchel a gyda ffocws da yn cael eu darparu, gan ymgysylltu â'r plentyn a'i helpu. | Rhagorol |

Mae ein sgôr[5] ar gyfer gweithredu a darparu'n seiliedig ar y cwestiynau allweddol canlynol:

| | **% 'Ydy'** |
|---|---|
| A yw gweithredu a darparu gwasanaethau'n effeithiol yn helpu ymataliad y plentyn? | **100%** |
| A yw gweithredu a darparu gwasanaethau'n effeithiol yn helpu diogelwch y plentyn? | **100%** |
| A yw gweithredu a darparu gwasanaethau'n effeithiol yn helpu diogelwch pobl eraill? | **100%** |

Roedd y ddarpariaeth yn cynnwys dull sy'n ystyriol o drawma wrth weithio â phlant a theuluoedd. Canfu arolygwyr fod ymarferwyr wedi cymryd yr amser i feithrin ymddiriedaeth ac i ddatblygu perthnasoedd gweithio positif ac effeithiol. Roedd hyn wedi annog a hybu ymgysylltiad, ac, mewn llawer o achosion, roedd plant yn teimlo'n ddigon cyfforddus i wneud rhagor o ddatgeliadau. Roedd ymarferwyr yn alluog i ymateb yn briodol, gan sicrhau bod diogelwch yn cael ei reoli ochr yn ochr â sicrhau nad oedd eu perthynas â'r plentyn yn cael ei pheryglu.

Roedd ymarferwyr wedi llwyddo i roi eu cynlluniau o safon uchel ar waith, gan ddarparu ystod o ymyriadau a oedd yn rhoi sylw i bryderon ac a oedd yn adeiladu ar gryfderau. Er enghraifft, canfu arolygwyr eiriolaeth gref i helpu plant i sicrhau a chynnal pecynnau addysg a hyfforddiant priodol. Roedd y pecynnau a ddarparwyd wedi'u personoli ar gyfer pob plentyn a'u gweithredu'n unol â'r arddull dysgu a ffefrid ganddynt, er enghraifft, gan ddefnyddio dulliau rhyngweithiol. Roedd anghenion amrywiaeth y plentyn wedi cael eu hystyried ym mhob achos a, lle'r oedd angen, roedd addasiadau priodol wedi'u gwneud.

Roedd y ddarpariaeth i hybu diogelwch y plentyn a phobl eraill yn dda iawn. Canfu arolygwyr fod ymyriadau wedi targedu meysydd critigol, fel camddefnyddio sylweddau a llesiant emosiynol. Roedd sesiynau hefyd wedi dysgu sgiliau ymarferol i blant i'w helpu i fyw'n annibynnol, ac a oedd yn rhoi pwyslais ar ddatblygu eu hyder a'u hunan-barch.

Gwelodd arolygwyr fod llawer o waith yn cael ei wneud i edrych ar brofiadau dioddefwyr a'r effaith y gallai ymddygiad y plentyn ei gael. Rhoddwyd sylw priodol i ddioddefwyr gwirioneddol a phosibl, gyda chamau effeithiol, fel monitro ychwanegol a rheolaethau allanol, yn cael eu rhoi ar waith i hybu diogelwch. Mewn un achos, roedd yr ymarferydd wedi datblygu cysylltiadau cryf â phlismona yn y gymdogaeth, y cydlynydd ymddygiad gwrthgymdeithasol, a gweithiwr ieuenctid, gan alluogi adborth rheolaidd a monitro pryderon. Cafodd y dull hwn ei efelychu mewn achosion eraill, gyda chyfathrebu mynych ac effeithiol rhwng aelodau'r rhwydwaith proffesiynol.

[5] Mae'r sgôr ar gyfer y safon yn seiliedig ar y sgôr isaf ar bob un o'r cwestiynau allweddol, sydd wedi'u gosod mewn band sgoriau, sydd wedi'i ddangos mewn print trwm yn y tabl. Ceir esboniad mwy manwl yn yr atodiad data.

## 2.4. Adolygu

| | |
|---|---|
| Mae adolygu cynnydd yn seiliedig ar wybodaeth, yn ddadansoddol ac yn bersonol, ac mae'n cynnwys y plentyn a'u rhieni neu ofalwyr. | Rhagorol |

Mae ein sgôr[6] ar gyfer adolygu'n seiliedig ar y cwestiynau allweddol canlynol:

| | % 'Ydy' |
|---|---|
| A yw adolygu'n rhoi digon o bwyslais ar helpu ag ymataliad y plentyn? | **100%** |
| A yw adolygu'n rhoi digon o bwyslais ar gadw'r plentyn yn ddiogel? | **100%** |
| A yw adolygu'n rhoi digon o bwyslais ar gadw pobl eraill yn ddiogel? | **100%** |

Roedd adolygiadau ysgrifenedig ffurfiol wedi'u cwblhau, a oedd yn cofnodi newidiadau i ymataliad a risgiau i a gan y plentyn ym mhob achos. Canfu arolygwyr fod gweithgarwch adolygu'n broses barhaus gydag ymarferwyr yn monitro cynnydd yn fynych ac yn addasu eu dull os oedd angen. Roedd hyn yn cynnwys ychwanegu meysydd gwaith newydd, fel ymyriad camddefnyddio sylweddau. Roedd adolygu gweithgarwch yn sicrhau bod ymyriadau'n parhau'n gymesur gyda dilyniant priodol, gan dargedu meysydd critigol ac adeiladu ar gryfderau, fel mynediad at weithgareddau adeiladol. Roedd strategaethau ymadael yn cael eu hystyried yn gynnar gyda gwasanaethau eraill yn cael eu cynnwys yn brydlon i hwyluso pontio effeithiol.

Roedd clywed barn plant a theuluoedd yn flaenoriaeth ac roedd wedi helpu ymarferwyr i ddeall cynnydd ac effaith ymyriadau. Roedd cynlluniau adolygu cyfeillgar i blant wedi'u cwblhau a'u diweddaru ar y cyd â phlant a theuluoedd. Roedd hyn yn sicrhau bod targedau ac amcanion yn dal yn berthnasol ac yn bosibl eu cyflawni.

Roedd ymatebwyr wedi ymateb yn briodol i newidiadau mewn risgiau i a gan y plentyn, a oedd wedi'u helpu drwy gael cynlluniau wrth gefn effeithiol ar waith yn barod. Er enghraifft, mewn un achos lle canfuwyd pryderon yn ymwneud â chamfanteisio posibl, roedd y rheolwr achos wedi gwneud atgyfeiriad at ofal cymdeithasol plant, wedi mynychu cyfarfodydd strategaeth, ac wedi cyfrannu at gynllun diogelwch newydd.

Roedd ymarferwyr yn rhagweithiol wrth geisio cael gwybodaeth a barn y rhwydwaith proffesiynol, ac roedd y rhain wedi'u hymgorffori mewn gweithgarwch adolygu. Roedd ymrwymiad o gyfeiriad y rhwydwaith proffesiynol i fynychu cyfarfodydd adolygu risg mewnol y TCI. Roedd ymarferwyr yn cael eu gwahodd yn gyson i ac yn mynychu cyfarfodydd a drefnwyd gan wasanaethau eraill, fel cyfarfodydd cynllunio gofal a chymorth. Roedd hyn yn galluogi'r bartneriaeth i gael dull cydlynys parhaus i helpu plant a theuluoedd.

[6] Mae'r sgôr ar gyfer y safon yn seiliedig ar y sgôr isaf ar bob un o'r cwestiynau allweddol, sydd wedi'u gosod mewn band sgoriau, sydd wedi'i ddangos mewn print trwm yn y tabl. Ceir esboniad mwy manwl yn yr atodiad data.

## Parth tri: Datrysiadau y tu allan i'r llys

Buom yn arolygu saith achos a oedd yn cael eu rheoli gan y TCI a oedd wedi cael eu datrys y tu allan i'r llys. Buom yn cyfweld rheolwyr achos mewn chwe achos.

### 3.1. Asesiadau

| | |
|---|---|
| Mae asesiadau'n seiliedig ar wybodaeth, yn ddadansoddol ac yn bersonol, ac mae'n cynnwys y plentyn a'u rhieni neu ofalwyr. | Da |

Mae ein sgôr[7] ar gyfer asesiadau'n seiliedig ar y cwestiynau allweddol canlynol:

| | **% 'Yes'** |
|---|---|
| A yw asesiadau'n dadansoddi'n ddigon manwl sut i helpu ag ymataliad y plentyn? | **71%** |
| A yw asesiadau'n dadansoddi'n ddigon manwl sut i gadw'r plentyn yn ddiogel? | **71%** |
| A yw asesiadau'n dadansoddi'n ddigon manwl sut i gadw pobl eraill yn ddiogel? | 86% |

Roedd y TCI yn rhan o beilot offer asesu'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid (YJB) ac roedd yr achosion yn ein sampl wedi cael eu hasesu drwy'r ddefnyddio'r offer hwn. Canfu arolygwyr ddadansoddiadau cynhwysfawr o ymataliad a oedd wedi ystyried ffactorau amddiffynnol a meysydd pryder. Roedd hyn yn rhoi dadansoddiad cyfannol, a dealltwriaeth o ymddygiad y plentyn, yr hyn sy'n sbarduno troseddu, a chryfderau y gellir adeiladu arnynt. Roedd asesiadau'n cael eu hybu gan wybodaeth a gafwyd gan wasanaethau eraill a oedd yn gweithio â'r plentyn a'r teulu, gan gynnwys addysg a gofal cymdeithasol y plentyn. Roedd plant a theuluoedd yn cyfrannu mewn ffordd ystyrlon at y broses ac roedd eu sylwadau wedi'u hymgorffori'n llawn mewn asesiadau. Roedd sawl ffynhonnell gwybodaeth a barn broffesiynol wedi'u defnyddio, gan alluogi asesiad manwl a chytbwys o'r plentyn a'u hanghenion.

Yn y rhan fwyaf o achosion, canfu arolygwyr ddadansoddiadau cynhwysfawr o anghenion amrywiaeth, gan gynnwys edrych ar hunaniaeth yr hunain. Fodd bynnag, yn y ddau achos a farnwyd fel annigonol, roedd angen mwy o ystyriaeth i dreftadaeth, diwylliant, a niwroamrywiaeth y plentyn.

Canfu arolygwyr ymchwiliadau trylwyr i risgiau, gan gynnwys sut y gallai profiadau cynnar fod wedi effeithio ar ymddygiad y plentyn. Roedd dosbarthu diogelwch y plentyn a risgiau i eraill i'w weld yn amlwg, ac roeddent yn cynnwys manylion ar sut i gadarnhau'r casgliadau a wnaed. Roedd yn amlwg bod ymarferwyr yn deall sut i ddadansoddi natur a chyd-destun niwed posibl a sut i ddefnyddio hyn i ystyried tebygrwydd y risgiau.

Roedd goruchwyliaeth gan reolwyr yn ddigonol ym mron pob achos, ac roedd lefel y cymorth yn cyfateb yn briodol i gymhlethdod yr angen. Roedd ansawdd yr asesiadau wedi'i sicrhau a, lle'r oedd angen, rhoddwyd adborth i wella'r asesiad.

[7] Mae'r sgôr ar gyfer y safon yn seiliedig ar y sgôr isaf ar bob un o'r cwestiynau allweddol, sydd wedi'u gosod mewn band sgoriau, sydd wedi'i ddangos mewn print trwm yn y tabl. Ceir esboniad mwy manwl yn yr atodiad data.

## 3.2. Cynllunio

| | |
|---|---|
| Mae'r gwaith cynllunio yn seiliedig ar wybodaeth, yn ddadansoddol ac yn bersonol, ac mae'n cynnwys y plentyn a'u rhieni neu ofalwyr. | Rhagorol |

Mae ein sgôr[8] ar gyfer cynllunio'n seiliedig ar y cwestiynau allweddol canlynol:

| | % 'Ydi |
|---|---|
| A yw gwaith cynllunio'n canolbwyntio ar help ag ymataliad y plentyn? | **86%** |
| A yw gwaith cynllunio'n canolbwyntio digon ar gadw'r plentyn yn ddiogel? | **86%** |
| A yw gwaith cynllunio'n canolbwyntio digon ar gadw pobl eraill yn ddiogel? | 100% |

Roedd cynlluniau i roi sylw i ymataliad wedi'u cynhyrchu ar y cyd â phlant a theuluoedd, gan ymgorffori eu lleisiau a'u dyheadau. Roedd pwyslais cryf ar wella ffactorau amddiffynnol ac adeiladu ar ymataliad, er enghraifft datblygu sgiliau cyflogaeth. Roedd cynlluniau'n hygyrch ac wedi'u hysgrifennu mewn fformat addas i blant, a oedd yn sicrhau bod plant a theuluoedd yn deall disgwyliadau. Canfu arolygwyr gynlluniau a oedd wedi'u teilwra ac yn bersonol gyda thargedau a oedd yn gymesur a chyflawnadwy ar gyfer amserlen y datrysiadau y tu allan i'r llys. Lle'r oedd posibilrwydd y byddai angen help ar blant ar ôl cau TCI, roedd cynlluniau ymadael yn cael eu hystyried a'u dechrau'n gynnar.

Roedd pwyslais cryf ar sylw i hunaniaeth, treftadaeth, a diwylliant y plentyn mewn cynlluniau, ac yn y rhan fwyaf o achosion roedd anghenion amrywiaeth wedi cael eu hystyried. Fodd bynnag, mewn rhai cynlluniau, roedd angen mwy o feddwl a manylion o ran anghenion niwroamrywiaeth y plentyn.

Roedd safon y gwaith cynllunio i hybu diogelwch pobl eraill yn gyson uchel. Roedd cynlluniau wedi targedu meysydd allweddol ar gyfer ymyriadau gyda'r nod o leihau risgiau i ac o gyfeiriad y plentyn. Roedd hyn yn cynnwys cymorth llesiant emosiynol, anghenion camddefnyddio sylweddol, perthnasoedd â chymheiriaid, a rheoleiddio emosiynol. Mewn achosion perthnasol, roedd cynlluniau diogelwch personol wedi'u cwblhau â'r plentyn, gan edrych ar gamau y gallant eu cymryd i gadw'n ddiogel fel cadw'u meddyginiaeth angenrheidiol gyda hwy bob amser a chadw'u ffôn wedi'i wefru a gyda hwy. Roedd dull cydweithredol o'r fath yn rhoi ymdeimlad o berchnogaeth i'r plentyn.

Roedd ystyriaeth i ddioddefwyr a'u diogelwch yn gryfder ac roedd yn ddigonol ym mhob achos perthnasol. Lle'r oedd dioddefwyr posibl a gwirioneddol wedi'u nodi, roedd gwaith priodol i ddiogelu dioddefwyr wedi'i gwblhau. Roedd y cynlluniau hyn wedi ystyried barn a dymuniadau dioddefwyr yn ogystal â rheolaethau allanol i liniaru pryderon. Roedd cynlluniau hefyd wedi nodi ymyriadau i helpu plant i ddeall yr effaith y gallai eu hymddygiad fod wedi'i gael ar y dioddefwr/dioddefwyr.

Roedd y gwaith cynllunio wrth gefn i gadw'r plentyn ac eraill yn ddiogel yn ddigon manwl, gan nodi ymatebion ac amserlenni priodol ar gyfer gweithredu pe bai risgiau'n newid. Roedd trefniadau wrth gefn yn gyfannol ac roeddent wedi cynnwys rolau gwasanaethau eraill, y plentyn, a'r teulu i hybu diogelwch.

8 Mae'r sgôr ar gyfer y safon yn seiliedig ar y sgôr isaf ar bob un o'r cwestiynau allweddol, sydd wedi'u gosod mewn band sgoriau, sydd wedi'i ddangos mewn print trwm yn y tabl. Ceir esboniad mwy manwl yn yr atodiad data.

## 3.3. Gweithredu a darparu

| | |
|---|---|
| Mae gwasanaethau o safon uchel, cydlynus, gyda phwyslais da'n cael eu darparu, gan ymgysylltu â'r plentyn a'i helpu. | Rhagorol |

Mae ein sgôr[9] ar gyfer gweithredu a darparu yn seiliedig ar y cwestiynau allweddol canlynol:

| | % 'Ydy' |
|---|---|
| A yw'r gwasanaeth a ddarperir yn effeithiol wrth helpu ag ymataliad y plentyn? | 100% |
| A yw'r gwasanaeth a ddarperir yn effeithiol wrth helpu â diogelwch y plentyn? | **86%** |
| A yw'r gwasanaeth a ddarperir yn effeithiol wrth helpu â diogelwch pobl eraill? | 100% |

Mae ymarferwyr yn hyfedr yn eu gallu i ddatblygu a chynnal perthnasoedd gweithio positif â phlant a theuluoedd. Roedd plant yn cael eu gweld mewn amgylcheddau lle'r oeddent fwyaf cyfforddus, er enghraifft, ymweliadau cartref neu mewn lleoliadau cymunedol. Canfu arolygwyr fod ymarferwyr wedi defnyddio ystod o arddulliau arloesol a oedd yn diwallu anghenion y plentyn, gan gynnwys cymhorthion gweledol a sesiynau rhyngweithiol. Ym mhob achos, roedd y ddarpariaeth wedi diwallu anghenion amrywiaeth y plentyn; mewn un achos, gwelsom enghraifft dda o sesiynau a oedd yn edrych ar ddiwylliant a threftadaeth a sut yr oedd hyn wedi ffurfio profiad a hunaniaeth y plentyn. Roedd dull yr ymarferydd wedi hwyluso ymgysylltiad cryf ac effeithiol â'r datrysiad.

Roedd pwyslais cryf ar integreiddio cymunedol ac adeiladu ar gryfderau personol y plentyn i roi hwb i'w hunan-barch a'u hyder. Roedd dilyniant ymyriadau'n dda, gan dargedu meysydd allweddol fel datrys gwrthdaro, cam-drin sylweddau, a sgiliau meddwl. Lle'r oedd angen cymorth â'u llesiant emosiynol ac iechyd meddwl, roedd atgyfeiriadau wedi'u gwneud ac roedd cymorth priodol wedi'i gynnig.

Lle'r oedd gwasanaethau eraill helpu'r plentyn a'r teulu, gwelodd arolygwyr ddull o weithio cydlynus a chydlynol gan y rhwydwaith proffesiynol. Roedd y dull hwn, ynghyd â chyfathrebu effeithiol rhwng gwasanaethau, yn help mawr i reoli a rhoi sylw i risgiau i ac oddi wrth y plentyn. Roedd cysylltiad y gwasanaethau mewn un achos yn arbennig iawn, gan eu bod gyda'i gilydd ac yn unigol wedi atgyfnerthu'r un neges. Roedd y cysondeb hwn yn eithriadol o fuddiol i'r plentyn a'r teulu, a oedd yn deall rôl pob gwasanaeth a'r hyn y byddent yn ei wneud â hwy.

Roedd y pwyslais cryf ar amddiffyn dioddefwyr mewn gwaith cynllunio wedi'i roi ar waith yn ymarferol. Ym mhob achos perthnasol roedd anghenion dioddefwyr a mesurau angenrheidiol i hybu diogelwch wedi cael sylw. Roedd y rhain yn cynnwys defnyddio rheolaethau allanol priodol, a hefyd darparu ymyriadau i ddatblygu rheolaethau mewnol y plentyn, fel gweithio ar reoleiddio emosiynol.

[9] Mae'r sgôr ar gyfer y safon yn seiliedig ar y sgôr isaf ar bob un o'r cwestiynau allweddol, sydd wedi'u gosod mewn band sgoriau, sydd wedi'i ddangos mewn print trwm yn y tabl. Ceir esboniad mwy manwl yn yr atodiad data.

## 3.4. Polisi a darpariaeth ar gyfer datrysiadau y tu allan i'r llys

| Mae gwasanaeth datrysiadau y tu allan i'r llys o safon uchel, sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar waith sy'n hybu gwaith atgyfeirio ac sy'n hybu ymataliad cynaliadwy. | Rhagorol |
|---|---|

Buom yn arolygu ansawdd y polisi a'r ddarpariaeth sydd ar waith ar gyfer datrysiadau y tu allan i'r llys, gan ddefnyddio tystiolaeth o ddogfennau, cyfarfodydd a chyfweliadau. Roedd ein prif ganfyddiadau fel a ganlyn:

**Cryfderau:**

- Mae canllaw manwl sy'n cynnwys disgrifiad clir o'r broses datrysiadau y tu allan i'r llys a'r disgwyliadau gofynnol ar gyfer cyflawni. Mae'r gwasanaeth a'r partneriaethau ehangach yn deall y protocolau.
- Mae canllaw sy'n cynnwys manylion penodol ar sut mae'r gwasanaeth yn bwriadu ystyried nodweddion gwarchodedig plant a theuluoedd sy'n defnyddio'r ganolfan. Mae'r canllaw'n hybu mynediad cyfartal i'r ddarpariaeth a sut i adnabod a diwallu anghenion amrywiaeth.
- Mae proses y ganolfan yn drylwyr a chadarn. Mae presenoldeb cyson gan yr heddlu, y TCI, a gofal cymdeithasol plant. Mae gweithwyr proffesiynol eraill sy'n gysylltiedig â'r achos yn cael eu gwahodd, ynghyd â'r plentyn a'r teulu. Mae prosesau penderfynu'n cael eu llywio gan asesiadau cynhwysfawr sydd wedi'u darllen ymlaen llaw.
- Mae'r TCI, yr heddlu, a'r bartneriaeth wedi ymrwymo i ddull sy'n canolbwyntio ar y plentyn. Mae anghenion unigol y plentyn ac amgylchiadau'r drosedd yn cael eu hystyried ochr yn ochr â'i gilydd yn y matrics difrifoldeb wrth benderfynu ar y canlyniadau mwyaf priodol.
- Mae plant a theuluoedd yn gwneud cyfraniad ystyrlon at broses y ganolfan. Maent yn cael eu helpu a'u paratoi i fynychu'r ganolfan. Mae eu barn yn cael ei gwerthfawrogi ac mae dull cydweithredol i asesu, cynllunio, a chanfod y canlyniad mwyaf priodol.
- Er nad oes ei angen yn aml, mae proses uwchgyfeirio sefydledig os na ellid gwneud penderfyniad, sy'n caniatáu i achosion gael eu hadolygu ar lefel uwch. Mae aelodau'r panel yn ddigon hyderus i ddefnyddio'r broses hon.
- Cynigir ymyriadau ar gyfer pob datrysiad y tu allan i'r llys. Gall plant fanteisio ar yr un gwasanaethau a darpariaeth ag yn achos achosion ar ôl y llys, gyda'r elfen wirfoddol yn ddealladwy i bawb perthnasol. Mae strategaeth ymadael gref lle gall plant, os bydd angen, gael cymorth ar ôl cau achosion TCI.
- Mae prosesau rheoli risg effeithiol ar waith. Mae'r bartneriaeth yn deall y rhain yn dda ac maent yn hybu diogelwch plant a phobl eraill.
- Roedd y gwasanaeth yn rhan o dreial offer asesu datrysiadau y tu allan i'r llys y TCI a chafwyd adborth arno, ac a oedd yn cyfrannu at ei ddatblygu a'i werthuso. Mae'r gwasanaeth erbyn hyn wedi mabwysiadu'r offer.
- Mae'r TCI a phartneriaid wedi ymrwymo i wella proses y ganolfan a'r hyn a gynigir i blant. Maent wedi cynnal gwerthusiad ac wedi defnyddio dysgu o'r sector i addasu eu

darpariaeth, gan gynnwys treialu Canlyniad 22 a sefydlu cynllun dargyfeirio defnyddwyr canabis.

- Cynhelir dadansoddiadau o'r ddarpariaeth datrysiadau y tu allan i'r llys yn rheolaidd, Mae'r rhain yn cael eu llywio gan farn y plant a'r teuluoedd sydd wedi defnyddio'r ddarpariaeth. Mae hyn wedi gwella dealltwriaeth y gwasanaeth o'i effeithiolrwydd ac mae wedi helpu i lywio'r ddarpariaeth.

**Meysydd i'w gwella:**

- Cynigir opsiynau dargyfeirio cryf, ond mae angen i'r TCI barhau â'i waith â'r heddlu i wella hyn, gan gynnwys datblygu a sefydlu Canlyniad 22. Byddai hefyd yn elwa ar adolygu prosesau i sicrhau hyblygrwydd priodol yn y modd y defnyddir datrysiadau y tu allan i'r llys, gan sicrhau eu bod yn diwallu anghenion plant ym mhob achos.
- Mewn rhai achosion, roedd oedi hir rhwng y drosedd ac atgyfeiriad at y ganolfan. Mae hwn yn fater sy'n cael sylw gan yr heddlu a'r TCI, ond nid yw wedi'i ddatrys yn foddhaol eto.
- Mae angen cryfhau'r broses i gyfleu canfyddiadau dadansoddiadau a gwerthusiadau fel y bydd effaith y ddarpariaeth yn ddealladwy ar lefel weithredol.

# 4.1. Ailsefydlu

| 4.1. Polisi a darpariaeth ailsefydlu | |
|---|---|
| Mae gwasanaeth adsefydlu o safon uwch, sy'n seiliedig ar dystiolaeth i blant sy'n gadael y ddalfa. | Rhagorol |

Buom yn edrych ar ansawdd y polisi a'r ddarpariaeth sydd ar waith ar gyfer gwaith ailsefydlu, gan ddefnyddio tystiolaeth o ddogfennau, cyfarfodydd a chyfweliadau. I ddangos y gwaith hwn, buom yn arolygu un achos a reolwyd gan y TCI a oedd wedi cael dedfryd o gaethiwed. Roedd ein prif ganfyddiadau fel a ganlyn.

**Cryfderau:**

- Mae'r canllaw yn gynhwysfawr; mae'n nodi'n glir y prosesau angenrheidiol sydd eu hangen i sicrhau ailsefydlu adeiladol. Mae ymrwymiad o fewn y bartneriaeth i'r polisi a'r llwybrau, ac mae manylion priodol am ddisgwyliadau pob gwasanaeth.
- Mae'r polisi am weld dull personol, sy'n seiliedig ar gryfderau lle mae anghenion unigol ac amrywiaeth plant yn ganolog. Mae canllaw ymarferol ar sut i adnabod a helpu plant wedi'u gynnwys yn y polisi.
- Yn yr achos ailsefydlu y buom yn ei adolygu, roedd anghenion amrywiaeth unigol y plentyn wedi cael eu hystyried. Cymerwyd camau a gwnaed addasiadau priodol i hybu mynediad cyfartal i'r ddarpariaeth ac i ddiwallu anghenion y plentyn.
- Mae'r bartneriaeth yn cydnabod ei bod yn gyfrifol ac yn atebol am ddarpariaeth ailsefydlu. Mae trefniadau sy'n caniatáu goruchwyliaeth weithredol a strategol.
- Mae'r rhan fwyaf o'r ymarferwyr sy'n goruchwylio achosion ailsefydlu a remand wedi cael hyfforddiant penodol. Defnyddir trefniadau rhannu gwaith mewn achosion cymhleth.
- Ceir manylion rheoli risg a diogelwch, gan gynnwys cymorth i ac amddiffyniad i ddioddefwyr, yn y canllaw. Yn yr achos ailsefydlu a adolygwyd gennym, cymerwyd camau priodol i hybu diogelwch y plentyn a phobl eraill.
- Yn yr achos a adolygwyd gennym, cafwyd cysylltiad aml ac ystyrlon â'r plentyn, a oedd yn help i ddatblygu perthynas weithio dda ac a oedd yn cyfrannu at gynllunio ailsefydlu'n effeithiol.
- Mae gan y TCI berthnasoedd gweithio effeithiol â'r ystadau diogel lleol a'r rhwydweithiau proffesiynol sy'n gysylltiedig ag ailsefydlu. Yn yr achos a adolygwyd gennym, roedd y cyfathrebu rhwng gwasanaethau'n amserol, yn cefnogi cynllunio ailsefydlu, ac yn hybu rheoli risg a diogelwch.
- Mae llwybrau ailsefydlu effeithiol, sy'n cael eu cydlynu gan y TCI, sy'n galluogi partneriaid i ddarparu gwasanaethau mewngymorth i blant er mwyn ailsefydlu adeiladol. Yn yr achos a adolygwyd, diwallwyd anghenion llety, iechyd ac addysg y plentyn.
- Mae polisi a'r ddarpariaeth ailsefydlu'n cael eu hadolygu'n rheolaidd ac maent yn cael eu llywio gan ddadansoddiad mewnol a dysgu o'r sector ehangach.
- Cafodd y ddarpariaeth ailsefydlu ei gwerthuso â phartneriaid. Cafodd y canfyddiadau eu defnyddio'n effeithiol i ffurfio a gwella'r gwasanaeth a ddarperir. Mae hyn yn

cynnwys adolygu gwella protocolau ac opsiynau llety i blant sydd mewn perygl o gael eu cadw ac sy'n barod i gael eu rhyddhau.

**Meysydd i'w gwella:**

- Bydd gwella gwerthusiadau, adolygiadau o achosion unigol ymhellach gyda staff gweithredol yn annog dysgu, galluogi dealltwriaeth bellach o brofiad bywyd y plentyn, ac edrych ar effaith anghymesuredd posibl.
- Mae angen gwella sut mae canfyddiadau o ddadansoddiadau a gwerthusiadau'n cael eu cyfleu i staff gweithredol a phartneriaid. Bydd hyn yn sicrhau bod dysgu, gan gynnwys meysydd cryfder, yn hysbys.

## Rhagor o wybodaeth

Mae'r canlynol i'w cael ar ein gwefan:

- data'r arolygiad, gan gynnwys methodoleg a ffeithiau cyd-destunol am y TCI
- rhestr o dermau a ddefnyddiwyd yn yr adroddiad hwn.